
CANLLAWIAU CYD GYNHYRCHU S4C – Awst 2016

Yn ystod 2015 cynhaliodd S4C waith ymchwil er mwyn adnabod sut y gellir hybu cyd gynyrchiadau a gweithgaredd rhyngwladol ymhlith cwmnïau sy'n cynhyrchu cynnwys ar gyfer S4C.

Mae manteision pendant o gyd gynhyrchu:-

- Denu arian ychwanegol ar gyfer cynyrchiadau S4C
- Comisiynu ystod o gynnwys ehangach na fyddem yn gallu comisiynu ein hunain
- Comisiynu cynyrchiadau gyda chyllidebau uwch na phetai S4C yn llwyr ariannu
- Sicrhau gwerthoedd cynhyrchu safonol ar adeg o gynni ariannol
- Codi ymwybyddiaeth ryngwladol am S4C a chynnwys a thalent Gymreig
- Hybu gwerthiant er mwyn sicrhau incwm i'r dyfodol
- Cryfhau'r sector gynhyrchu drwy hwyluso mynediad i farchnadoedd rhyngwladol a photensial i ennill refeniw ychwanegol o werthiant rhaglenni.

Mae'n ddyhead gan S4C i gynyddu'r nifer o gyd gynyrchiadau ac i gryfhau'r cysylltiad gyda darlledwyr eraill dramor yn ogystal ag yn y DU. Roedd yr ymchwil yn nodi y byddai'r sector gynhyrchu yn gwerthfawrogi arweiniad a chefnogaeth gan S4C wrth fynd ati i ganfod partneriaid cyd gynhyrchu. Byddwn felly yn cymryd camau i gefnogi'r sector i hybu cyd gynhyrchu. Y prif elfennau fydd:-

- clustnodi isafswm £500k o'r gyllideb gynnwys yn flynyddol ar gyfer cyfrannu at ariannu cyd gynyrchiadau.
- darparu llythyr o fwriad yn cadarnhau'r swm y bydd S4C yn barod i'w fuddsoddi yn y prosiect, yn amodol ar gytundeb er mwyn helpu cynhyrchwyr i ganfod gweddill yr arian. Bydd y llythyr o fwriad yn ddilys am flwyddyn.
- trafod cynlluniau dosbarthu gyda chwmnïau fesul prosiect er mwyn argymhell dosbarthwr posib neu i hwyluso cyflwyniadau.
- cyflwyno cwmnïau i gysylltiadau sydd gan y comisiynwyr gyda darlledwyr eraill mewn marchnadoedd ac yn y blaen.
- annog a chefnogi cwmnïau i ddatblygu strategaeth ryngwladol eu hunain lle'n berthnasol.

Bydd y pwyslais yn y lle cynta' ar gyd gynyrchiadau ffeithiol ac adloniant a chyd ddatblygu fformatau.

Byddwn hefyd yn cynllunio i gael un o gyfresi drama S4C yn gyd gynhyrchiad bob dwy flynedd. Bydd yr arian ar gyfer hyn yn cael ei gyllido ar wahân i'r isafswm £500k blynyddol.

Bydd yr arian yn amrywio o gynhyrchiad i gynhyrchiad ond bydd yn cael ei ddefnyddio yn benodol ar gyfer ariannu cynhyrchu'r rhaglen.

Byddwn yn edrych i gefnogi prosiectau lle y gellir codi o leia' hanner y gyllideb o ffynonellau eraill.

Bydd cynnig syniadau ar gyfer cyd gynyrchiadau yn rhan annatod o'r trafodaethau arferol gyda'r comisiynwyr a gellir cynnig syniad ar unrhyw adeg ond byddwn yn edrych yn benodol

am syniadau 5/6 mis cyn y prif farchnadoedd fel y gall cwmni fynd i'r farchnad gyda llythyr o fwriad gan S4C.

Bydd y canllawiau yma'n weithredol yn syth gydag unrhyw gyd arian yn cael ei glustnodi o gyllideb y flwyddyn y bydd y rhaglen yn debygol o gael ei darlledu.

Awst 2016